**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

21 Mawrth 2023

Annwyl aelodau'r pwyllgor

Yn ystod sesiwn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPE) ar 23 Tachwedd cytunais, fel Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, ddarparu data ar gyfer Cymru gyfan am nifer yr achosion o gyflyrau iechyd meddwl ymhlith myfyrwyr.

Rwy'n cydnabod bod yr ymateb hwn yn cael ei anfon atoch yn hwyrach na'r dyddiad a bennwyd, ac rwy'n ymddiheuro am yr oedi cyn darparu'r wybodaeth hon.

Mae'r data diweddaraf sydd gennym yn dangos cynnydd mewn achosion o iechyd meddwl gwael ymhlith myfyrwyr. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y myfyrwyr cofrestredig mewn prifysgolion yng Nghymru, dros y pum mlynedd ddiwethaf, sydd â chyflyrau iechyd meddwl:

| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer yr achosion** | 3,180 | 3,715 | 4,670 | 5,425 | 6,245 |
| **Cyfran y myfyrwyr cofrestredig yng Nghymru** | 2% | 3% | 4% | 4% | 4% |

Gofynnir i'r pwyllgor nodi'r sylwadau ategol canlynol ar gyfer y data a ddarperir:

Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r pump agosaf. Mae'r holl niferoedd yn seiliedig ar fyfyrwyr cofrestredig sydd:

- yn cael eu cyfrif yn rhan o boblogaeth gofrestru safonol Addysg Uwch;
- yn fyfyrwyr mewn lleoliadau addysg uwch yng Nghymru (sefydliadau addysg uwch Cymru; myfyrwyr addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach; myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae’r canrannau wedi’u cyfrifo ar sail nifer yr holl fyfyrwyr cofrestredig yng Nghymru y cofnodwyd statws eu hanabledd.

Dylai aelodau'r pwyllgor hefyd nodi bod y data’n cynnwys myfyrwyr sydd â dau gyflwr neu fwy. Gan nad yw'n hysbys ai cyflwr iechyd meddwl yw un o'r cyflyrau hynny, nid ydynt wedi cael eu cynnwys fel myfyrwyr sydd â chyflwr iechyd meddwl. O ganlyniad i hynny mae nifer y myfyrwyr cofrestredig sydd â chyflwr iechyd meddwl yn cynrychioli'r nifer isaf posibl – gallai'r nifer a'r gyfran wirioneddol fod yn uwch.

Rwy'n croesawu unrhyw gwestiynau a allai fod gennych mewn perthynas â’r data a ddarperir yma, ac rwy’n ymddiheuro’n ddiffuant unwaith eto am yr oedi cyn ymateb.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.